CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD



# Canllaw Cyllid Myfyrwyr

ar gyfer myfyrwyr y DU | Mynediad 2025



# Cyllid Myfyrwyr i fyfyrwyr y DU

# Wedi drysu?



# Peidiwch â phoeni, nid chi yw'r unig un! Mae cyllid myfyrwyr yn bwnc cymhleth.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i roi trosolwg sylfaenol i chi o'r ffioedd dysgu a godwn, y cyllid myfyrwyr y gallech ei gael i'ch helpu â chostau byw, a rhoi amlinelliad o'r bwrsariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n bwriadu dechrau eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi 2025.

Mae'n bosibl na chewch ateb i bob un o'ch cwestiynau yn canllaw hwn, oherwydd gallai eich amgylchiadau personol effeithio ar yr hyn y mae gennych yr hawl i'w dderbyn, ond bydd yn eich rhoi ar y llwybr cywir ac yn rhestru gwefannau defnyddiol eraill a manylion cyswllt ar gyfer pobl, a sefydliadau, sy'n gallu eich helpu.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ffioedd dysgu** | **4** |
| **Cyllid costau byw** | **5** |
| **Cyllid ychwanegol** | **9** |
| **Gwneud cais am gyllid** | **10** |
| **Ad-daliadau** | **11** |
| **Costau byw a chyllidebu** | **13** |
| **Ariannu cwrs gofal iechyd** | **14** |
| **Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd** | **19** |


www.caerdydd.ac.uk

# Ffioedd dysgu

## Faint mae Prifysgol Caerdydd yn ei godi?

Ar hyn o bryd, £9,250 yw ein ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr y DU am bob blwyddyn o'ch hastudiaethau. Mae'r ffi yn cwmpasu'r holl ffioedd dysgu, costau hanfodol y cwrs, cofrestru ac arholiadau.

**Nodwch** y codir tâl ychwanegol am lety yn neuaddau preswyl y Brifysgol.

## Unrhyw eithriadau?

Os byddwch yn ymgymryd â blwyddyn ar leoliad yn rhan o'ch gradd, byddwch yn talu ffi dysgu is ar gyfer y flwyddyn academaidd honno.

Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith ac astudio yn y DU ac ar draws y byd. Yn olaf, bydd myfyrwyr ym mlwyddyn dysgu yn y gwaith y rhaglen BSc/MArch Pensaernïaeth yn talu 50% o'r ffi lawn.

## A fydd fy ffioedd yn newid bob blwyddyn?

Ar hyn o bryd, mae ein ffioedd myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr y DU wedi'i osod ar £9,250 y flwyddyn, ond gall ffioedd fod yn destun newid, yn unol â pholisi'r Llywodraeth.

## Ydw i'n gallu cael benthyciad ffioedd dysgu?

Mae'n dibynnu ar ba gwrs rydych chi'n ei astudio, ble rydych chi'n byw nawr (h.y. cyn dechrau eich cwrs) ac os ydych chi wedi astudio mewn addysg uwch o'r blaen Os ydych yn byw yng Nghymru, bydd angen i chi gyflwyno cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru ac os ydych yn byw yn Lloegr, bydd angen i chi gyflwyno cais i Gyllid Myfyrwyr Lloegr (*Student Finance England*). (Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cyrff ariannu myfyrwyr eu hunain.) Os ydych yn gymwys, ni chaiff yr arian ei dalu i chi yn uniongyrchol. Yn hytrach, mae'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol. Os yn gymwys, byddwch fel arfer yn derbyn cyllid ffioedd dysgu am gyfnod arferol eich cwrs.

Os ydych wedi astudio'n flaenorol ym maes addysg uwch, cysylltwch â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr i gael cyngor.

## Oes rhaid i fi dalu fy ffioedd dysgu "ymlaen llaw"?

Na. Does dim rhaid talu ffioedd dysgu ymlaen llaw. Gall myfyrwyr cymwys gael Benthyciad Ffioedd Dysgu sy'n talu eu ffioedd dysgu yn llawn. Nid yw Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn seiliedig ar brawf modd felly maent ar gael i bob myfyriwr cymwys beth bynnag fo incwm y teulu. Drwy gymryd benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu rydych i bob pwrpas yn oedi talu eich ffioedd dysgu tan ar ôl i chi raddio ac yn cael cyflog.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cymryd benthyciad ffioedd dysgu, ond os nad ydych eisiau gwneud hynny, gallwch dalu'r ffioedd dysgu i'r Brifysgol.
Caiff dewisiadau eu cynnig i chi wrth ymrestru sy'n cynnwys talu drwy ddebyd uniongyrchol fesul tri rhandaliad yn ystod y flwyddyn academaidd.

Fel arall, os ydych wedi dewis ymuno â Phecyn Bwrsariaeth GIG Cymru ac yn gymwys i dderbyn y cyllid hwn, yna bydd eich ffioedd dysgu yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r brifysgol gan GIG Cymru.

**www.caerdydd.ac.uk/ffioedd**



# Cyllid costau byw

Yn ystod eich cyfnod yn y Brifysgol, yn ogystal â'ch ffioedd dysgu, bydd gennych gostau byw i dalu am bethau fel llety, bwyd, llyfrau, bywyd cymdeithasol, dillad, golchi dillad, teithio a'ch ffôn. Gall myfyrwyr cymwys gyflwyno cais ar gyfer cyllid cynhaliaeth i helpu gyda'r costau hyn.

**Ydw i'n gallu cael cyllid i helpu gyda fy nghostau byw?**

Ydych, os byddwch yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Mae amrywiadau rhanbarthol i'rcyllid cynhaliaeth fydd ar gael i chi. At hynny, caiff incwm teuluol ei ddwyn i ystyriaeth am fod ychydig o'r cyllid yn destun prawf modd.

# Faint y gallaf ei hawlio?


Mae'n dibynnu ar ble rydych chi'n byw nawr.

## Rwy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd

Yng Nghymru, gall pob myfyriwr sy'n gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru, ac sy'n byw i ffwrdd o gartref y teulu, gael £12,150 er mwyn cefnogi eich costau byw. Mae ychydig ar gael ar ffurf grant nad oes yn rhaid i chi ei ad-dalu. Mae'r gweddill ar gael fel benthyciad. Bydd y gyfran sydd ar gael fel grant a benthyciad yn dibynnu ar incwm y teulu. £1,000 fydd y swm isaf o arian grant. Mae'r siart isod yn dangos hynny:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**

Cyllid tuag at gostau byw 2024/25




Sylwch, mae benthyciad yn ad-daladwy, nid yw grant

Sylwer, mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2024-25. Nid yw ffigurau 2025-26 wedi'u rhyddhau eto. Ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Os oes gan eich teulu incwm o £18,370 neu lai, gallech fod yn gymwys i gael grant o £8,100 a benthyciad o £4,050.

Os oes gan eich teulu incwm o £35,000 gallech fod yn gymwys i gael grant o £5,208 a benthyciad o £6,942.

Os oes gan eich teulu incwm o £59,200 gallech fod yn gymwys i gael grant o £1,000 a benthyciad o £11,150.


**Sylwer** mai enghreifftiau yw'r rhain o'r cyllid sydd ar gael gyda'r incwm penodol hynny. Os yw eich incwm yn syrthio rhwng yr enghreifftiau a roddwyd gennym, yna bydd y cyllid yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio union fanylion incwm y cartref.

Rhagor o wybodaeth
**www.caerdydd.ac.uk/ffioedd**

# Rwy'n byw yn Lloegr ar hyn o bryd

£4,767 fydd isafswm y benthyciad a gewch gan Gyllid Myfyrwyr Lloegr os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar incwm eich teulu, gallech gael y swm uchaf o fenthyciad, hyd at £10,227. Mae'r siart isod yn dangos sut mae swm yr arian sydd ar gael yn dibynnu ar fanylion incwm y cartref.

**Cyllid Myfyrwyr Lloegr**
Cyllid tuag at gostau byw 2024/25




Sylwer, mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2024-25. Nid yw ffigurau 2025-26 wedi'u rhyddhau eto. Ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Lloegr i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

**Sylwer** mai enghreifftiau yw'r rhain o'r cyllid sydd ar gael gyda'r incwm penodol hynny. Os yw eich incwm yn syrthio rhwng yr enghreifftiau a roddwyd gennym, yna bydd y cyllid yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio union fanylion incwm y cartref.

Pan mae incwm y cartref yn uwch, mae'r Llywodraeth a'r corff ariannu'n disgwyl y bydd rhieni'n cyfrannu at gostau byw.




## Pryd byddaf yn cael fy nghyllid?

Fel arfer, bydd eich cyllid myfyriwr yn cael ei dalu i chi fesul tri rhandaliad, cyn belled â'ch bod wedi cael cadarnhad ynghylch yr hyn a delir i chi gan eich corff ariannu, gyda'r manylion cywir o ran y cwrs a'r brifysgol. Fel arfer, caiff y rhandaliad cyntaf ei dalu o fewn tri i bum diwrnod gwaith ar ôl i chi gwblhau'r broses ymrestru a gallai fod angen i chi gasglu'ch cerdyn adnabod, gwneir yr ail daliad ddechrau Ionawr fel arfer, a'r trydydd taliad ar ôl y Pasg. Mae hynny'n golygu ei bod yn bosibl y byddwch yn y Brifysgol am hyd at bythefnos cyn bod rhandaliad cyntaf eich arian yn cael ei dalu i chi. Ein cyngor, felly, yw eich bod yn paratoi i gyrraedd y Brifysgol gydag ychydig o arian i helpu â'ch costau byw o ddydd i ddydd.

Os nad ydych wedi cael eich cyllid ar ôl pythefnos o'r tymor, dylech gysylltu â'n Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr am gyngor. Yn yr un modd, os ydych yn brin o arian yn ystod y flwyddyn neu'n cael trafferth talu eich rhent neu eich biliau, dylech gysylltu â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr.

## Beth petawn yn dewis byw gartref?

Rydych yn dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid cynhaliaeth os ydych yn byw yng nghartref eich rhieni, fodd bynnag, bydd y cyllid wedi gostwng rhywfaint.

## Rwyf wedi astudio mewn prifysgol o'r blaen. A fydd hynny'n effeithio ar fy hawl?

Mae'n bosibl y bydd. Fe'ch cynghorir i gysylltu â'n Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr i gael rhagor o wybodaeth.

## Beth os wyf yn newid cwrs neu'n symud i brifysgol arall?

Os ydych yn penderfynu newid cwrs neu symud prifysgol cyn cyrraedd y brifysgol, rhaid i chi roi gwybod i'ch corff ariannu cyn y 1af o Fedi. Gallwch wneud hyn drwy ddiweddaru eich cyfrif cyllid myfyrwyr ar-lein.

Os ydych yn penderfynu newid eich cwrs neu'ch prifysgol ar ôl dechrau ar eich astudiaethau, dylech geisio cyngor y Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr am ei bod yn bosibl y bydd goblygiadau ariannol.

## A oes cyllid ar gael ar gyfer blwyddyn lleoliad?

Oes. Bydd y cyllid sydd ar gael yn dibynnu ar yr hyn a wnewch yn ystod eich lleoliad.

### Beth os wyf yn gwneud cais drwy'r system Glirio?

Os ydych yn dod i Brifysgol Caerdydd drwy'r broses Glirio ac eisoes wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr, ond eich bod wedi newid eich cwrs neu brifysgol drwy'r broses Glirio, mae angen i chi roi gwybod i Gyllid Myfyrwyr drwy eich cyfrif ar-lein gyda nhw. Os na fyddwch yn diweddaru eich cais am gyllid drwy nodi'r cwrs a'r brifysgol gywir, ni fydd modd talu eich cyllid i chi. Os na fyddwch wedi diweddaru eich cyllid erbyn y 1af o Fedi y flwyddyn y byddwch yn ymrestru, bydd angen i chi gysylltu â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr.

Os nad oeddech wedi gwneud cais am gyllid cyn y broses Glirio, cyflwynwch gais cyn gynted â phosibl. Mae cyrff Cyllid Myfyrwyr yn cynghori y gall y broses gymryd hyd at tua 6 wythnos yn dibynnu ar ba gyllid yr ydych yn gwneud cais amdano. Os oes oedi o ran eich cyllid a bod angen unrhyw help arnoch, cysylltwch â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr.



# Cyllid Ychwanegol

## A ydw i'n gallu gwneud cais am unrhyw gyllid ychwanegol?

- **Grant Oedolion sy'n Ddibynyddion** – os oes gennych oedolyn sy'n ddibynnol arnoch yn ariannol
- **Lwfans Dysgu Rhieni** – os oes gennych blentyn/plant dibynnol
- **Grant Gofal Plant** – os ydych yn defnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy
- **Lwfans Myfyrwyr Anabl** – i helpu â chostau cysylltiedig anhawster dysgu neu anabledd penodol.

Dylech wneud cais ar gyfer y rhain drwy eich corff ariannu yr un pryd â'ch bod yn gwneud cais ar gyfer eich cyllid ffioedd myfyrwyr a chynhaliaeth.

Mae'n bosibl hefyd y bydd cymorth ychwanegol ar gael gyda chostau Gofal Plant i rieni cymwys plant rhwng 3 a 4 oed drwy'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-ymgyrch**

# Gwneud cais am gyllid

## Dylech wneud cais i'ch corff cyllido am gymorth gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Os ydych yn byw yng Nghymru, cyn dechrau eich cwrs, Cyllid Myfyrwyr Cymru fydd y corff hwn, ac os ydych yn byw yn Lloegr, Cyllid Myfyrwyr Lloegr fydd y corff o dan sylw (mae cyrff ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon). Bydd angen i chi gofrestru a chreu cyfrif ar-lein a chyfrinair gyda'ch corff ariannu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich manylion mewngofnodi'n ddiogel oherwydd bydd angen y rhain arnoch ar gyfer pob gohebiaeth â'ch corff ariannu. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gallwch wneud cais am gymorth gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

## Pryd ddylwn i wneud cais?

Dylech wneud cais yn gynnar i wneud yn siŵr bod eich cyllid yn cael ei dalu ar ddechrau'r tymor. Fel arfer, mae ceisiadau'n agor y mis Mawrth cyn i chi ddechrau eich cwrs. Y dyddiad cau fel arfer yw Mai/Mehefin os ydych am sicrhau eich cyllid erbyn dechrau'r tymor. Gall dyddiadau cau amrywio bob blwyddyn academaidd, gwiriwch gyda'ch corff ariannu. Cymerwch eich amser wrth gwblhau'r cais. Efallai y bydd angen rhywfaint o wybodaeth arnoch hefyd gan eich rhieni/gwarcheidwad. Os byddwch yn gwneud cais ar ôl y dyddiad cau yna gallai fod oedi cyn talu eich cyllid ac efallai na fydd yn cael ei dalu i chi o fewn 3-5 diwrnod gwaith i gwblhau'r ymrestru.

## Gwybodaeth bellach ynghylch y Cyrff Ariannu Myfyrwyr

**Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer:** Cyllid Myfyrwyr Cymru **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer:** Cyllid Myfyrwyr Lloegr **www.direct.gov.uk/studentfinance**

**Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon fel arfer:** Cyllid Myfyrwyr Gogledd Iwerddon **www.studentfinanceni.co.uk**

**Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer:** Student Awards Agency for Scotland **www.saas.gov.uk**

Cofiwch y bydd angen i chi wneud cais am eich cyllid bob blwyddyn academaidd.



# Ad-daliadau

Mae ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn cael ei reoli gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Bydd unrhyw fenthyciad ffioedd dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth a gymerwch yn ystod eich astudiaethau yn cael eu cyfuno i ffurfio un swm yr ydych yn ei ad-dalu. Ni fydd yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw fenthyciad myfyriwr tan ar ôl i chi adael eich cwrs a'ch bod yn ennill dros incwm penodol.

## Ffeithiau allweddol

- Mae gwahaniaethau yn y system ad-dalu yn dibynnu ar ble rydych yn byw fel arfer cyn dechrau eich cwrs a phwy yw eich corff cyllido.
- Rydych yn dechrau ad-dalu yn y mis Ebrill ar ôl i chi roi'r gorau i astudio
- Dim ond unwaith y byddwch yn ennill dros drothwy incwm penodol yr ydych yn ei ad-dalu.
- Rydych yn ad-dalu ar gyfradd o 9% o'ch incwm dros y trothwy incwm perthnasol
- Os bydd eich incwm yn mynd yn llai na'r trothwy ad-dalu, bydd yr addaliadau'n dod i ben a dim ond pan fydd eich incwm yn uwch na'r trothwy unwaith eto y byddwch chi'n ailddechrau ad-dalu.
- Mae isafswm cyfnod ad-dalu; byddwch naill ai'n clirio'ch balans o fewn yr amser hwn, neu bydd unrhyw falans sy'n weddill ar ddiwedd y tymor yn cael ei ddileu.
- Dim ond benthyciadau y mae'n rhaid i chi eu had-dalu; os ydych yn derbyn grant cynhaliaeth nid oes angen i chi ad-dalu hyn.
- Codir llog arnoch ar unrhyw fenthyciad a gymerir o'r amser y caiff ei dalu i chi (benthyciad cynhaliaeth) neu ar eich rhan (benthyciad ffioedd dysgu) hyd nes y caiffeich benthyciad ei dalu'n ôl yn llawn, neu y caiff unrhyw falans ei ddileu.

## System ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ym mis Medi 2023

| | Cyllid Myfyrwyr Cymru | Cyllid Myfyrwyr Lloegr |
|---|---|---|
| **Cynllun Ad-dalu SLC** | Cynllun 2 | Cynllun 5 |
| **Trothwy incwm** | £27,295* | £25,000** |
| **Cyfradd llog** | RPI + hyd at 3% | RPI + 0% |
| **Cyfnod ad-dalu** | 30 mlynedd | 40 mlynedd |
| **Arall** | Canslo Benthyciadau yng Nghymru: Dileu hyd at £1,500 o fenthyciad cynhaliaeth pan fyddwch yn gwneud eich ad-daliad benthyciad cyntaf **www.gov.uk/guidance/welsh-partial-loan-cancellation.cy** | |
| **Trefniadau ar gyfer Mynediad 2024** | Parhau fel uchod ond yn amodol ar adolygiad blynyddol | Parhau fel uchod |

*Gall y trothwy gynyddu bob blwyddyn **Yn aros ar £25,000 tan Ebrill 2027 pan fydd yn dechrau codi gyda RPI.

## Enghreifftiau o ad-daliad misol yn seiliedig ar incwm

| Incwm | Cyllid Myfyrwyr Cymru | Cyllid Myfyrwyr Lloegr |
|---|---|---|
| **£26,000** | £0 | £7.50 |
| **£35,000** | £57.79 | £75 |
| **£45,000** | £132.79 | £150 |



Gallwch ddarganfod mwy gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr: **www.gov.uk/repaying-your-student-loan**

# Costau byw a chyllidebu

Bwriedir i'ch cyllid myfyriwr dalu costau byw yn y brifysgol, ond bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol.

Er enghraifft, os ydych yn teithio ymhellach i ffwrdd i'r brifysgol, efallai bydd eich costau teithio'n uwch. Yn yr un modd, mae rhai myfyrwyr yn mynd allan yn fwy nag eraill, ac felly mae'n bosibl y bydd eu costau cymdeithasu ac adloniant yn uwch.

Cyn belled â'ch bod wedi derbyn cadarnhad o'ch cyllid myfyriwr gan eich corff cyllido (gelwir hyn yn llythyr hawl) a bod hwn yn cynnwys manylion y cwrs a'r brifysgol gywir, yna fe ddylai eich rhandaliad cyntaf gael ei dalu o fewn 3-5 diwrnod gwaith i chi gwblhau'r ymrestriad ond mae'n well cyrraedd y brifysgol gydag arian at gostau byw am ryw bythefnos. Os nad ydych wedi derbyn eich cyllid ar ôl pythefnos, cysylltwch â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr.

## Sut ydw i'n mynd ati i gynllunio fy nghyllideb?

Unwaith y bydd gennych amcangyfrif o faint o gyllid myfyrwyr y byddwch yn ei dderbyn, cwblhewch gyllideb i gyfrifo, er enghraifft, faint o rent y gallwch fforddio ei dalu, a faint y gallwch ei wario ar fwyd a chymdeithasu bob wythnos. Cymharwch eich cyllideb yn y brifysgol â faint rydych yn ei wario nawr.

Mae rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol iawn a rhai awgrymiadau ar ein gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/new-students/before-you-arrive/your-finances/livingexpenses-and-budgeting**

**Mae arolygon annibynnol wedi enwi Caerdydd fel y mwyaf fforddiadwy o holl ddinasoedd prifysgol y DU.**


www.natwest.com/life-moments/students-andgraduates/student-living-index.html#download-thestudent-living-index

## A allwch chi roi ambell enghraifft o'r costau i mi?


Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar fyfyriwr israddedig blwyddyn gyntaf sy'n byw mewn neuaddau preswyl.

Mae'n bwysig pwysleisio bod yr enghraifft hon yn seiliedig ar gostau cyfartalog disgwyliedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, ac nid yw'n ystyried eich amgylchiadau personol.

Felly mae'n bwysig eich bod yn cyfrifo'ch cyllideb eich hun, gan ystyried y cyllid myfyrwyr sydd ar gael i chi.



# Ariannu cwrs gofal iechyd



## Ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu dechrau cwrs gofal iechyd ym mis Medi 2025 mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r cyllid myfyrwyr a fydd ar gael.

Gellir defnyddio'r ffigurau canlynol fel canllaw ar gyfer mynediad 2025 ond nid ydynt wedi'u cadarnhau eto.

**Mae cyrsiau gofal iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynnwys:**

- Radiograffeg a Delweddu Diagnostig (BSc)
- Therapi Galwedigaethol (BSc)
- Nyrsio (BN)
- Bydwreigiaeth (BMid)
- Radiotherapi ac Oncoleg (BSc)
- Ffisiotherapi (BSc)
- Therapi Deintyddol a Hylendid (BSc)
- Hylendid Deintyddol (DipHE)

Isod mae trosolwg o'r system ariannu bresennol, ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau cwrs ym mis Medi 2024, er gwybodaeth yn unig. Sylwch nad yw'r cyllid hwn wedi'i gadarnhau ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dechrau cwrs ym mis Medi 2025.

Am wybodaeth gyfredol, ewch i'n gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/funding/funding-yourhealthcare-course**

Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy edrych ar dudalen we Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG (Cymru): **https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/**



Mae gan fyfyrwyr 'cartref' sy'n dechrau cwrs gofal iechyd yng Nghymru ym mis Medi 2024 ddewis o ddwy system ariannu.



Gallant naill ai ddewis cael eu hariannu trwy Gynllun Bwrsariaeth y GIG a weinyddir gan Wasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG (Cymru) neu gan eu corff Cyllid Myfyrwyr (a bennir gan ble mae myfyriwr yn preswylio fel arfer cyn iddo ddechrau ei gwrs ac a amlinellir ar dudalennau 4-11 y canllaw hwn) Ar hyn o bryd mae'n rhaid i fyfyrwyr benderfynu pa system ariannu sydd orau iddyn nhw.

## Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru

Mae'r **Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru** presennol sydd ar gael gan Wasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG (Cymru), ar gael i fyfyrwyr o bob rhan o'r DU sy'n astudio gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n cynnwys nifer o elfennau:

- **Cymorth Ffioedd Dysgu y GIG** – sy'n cynnwys ffioedd dysgu llawn ac nad yw'n destun asesiad incwm Mae angen i fyfyrwyr wneud cais am hyn fel rhan o'u cais Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.
- **Grant y GIG** – grant heb asesiad incwm o £1,000 y flwyddyn i helpu gyda chostau byw. Nid yw hyn yn ad-daladwy ac yn cael ei dalu'n fisol.
- **Bwrsariaeth y GIG** – uchafswm o £2,643 y flwyddyn i helpu gyda chostau byw. Caiff hyn ei asesu yn erbyn incwm y cartref ond nid yw'n ad-daladwy ac yn cael ei dalu'n fisol.
- **Benthyciad cynhaliaeth cyfradd sefydlog ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr i helpu gyda chostau byw** – nid yw hwn yn cael ei asesu ar sail incwm a gall myfyrwyr wneud cais amdano ar-lein trwy wasanaeth Cyllid Myfyrwyr eu gwlad gartref yn y DU. Telir y ffynhonnell gyllid hon bob tymor ac mae'n fenthyciad ad-daladwy. Ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Lloegr yn 2024 y gyfradd yw £2,670 y flwyddyn. Ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael yw £11,150.
- **Help gyda chostau lleoliad gan y GIG** – fel costau teithio a llety ychwanegol (yn amodol ar delerau ac amodau) – sy'n cael eu gweinyddu gan yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd.

I dderbyn y cyllid hwn gan **Gynllun Bwrsariaeth y GIG**, mae angen i fyfyriwr ymrwymo i weithio yng Nghymru ar gyfer y GIG am ddwy flynedd ar ôl cymhwyso, neu 18 mis ar gyfer cwrs 2 flynedd.

Mae un cais i Wasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG (Cymru) yn cynnwys cymorth ffioedd dysgu'r GIG, Grant y GIG a Bwrsariaeth y GIG. Mae angen i fyfyrwyr wneud cais i'w corff cyllido cartref ar gyfer y benthyciad cynhaliaeth atodol ar gyfradd sefydlog yn unig (SFE/SFW/SFNI/SAAS).


**Dyma enghreifftiau o gyllid costau byw sydd ar gael drwy Gynllun Bwrsariaeth y GIG Cymru ar gyfer myfyriwr sy'n dechrau cwrs 30 wythnos safonol ym mis Medi 2024.**

Sylwch fod gan y rhan fwyaf o gyrsiau gofal iechyd wythnosau ychwanegol o astudio bob blwyddyn ar ben y flwyddyn academaidd safonol 30 wythnos a byddai'r cyllid yn cael ei gynyddu i adlewyrchu blynyddoedd academaidd hirach fel y manylir. Sylwch fod y ffigurau hyn yn seiliedig ar fyfyriwr sy'n byw i ffwrdd o gartref eu rhieni. Os yw myfyriwr yn byw yng nghartref ei rieni, gallai hyn leihau'r cyllid sydd ar gael.

Telir ffioedd dysgu yn llawn gan y GIG yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer costau byw a amlinellir isod.


**Cyfanswm y cyllid costau byw y flwyddyn sydd ar gael i fyfyrwyr drwy Gynllun Bwrsariaeth y GIG sydd fel arfer yn byw yng NGHYMRU (o dan SFW)**

Hyd Cwrs Safonol




**Cyfanswm y cyllid costau byw y flwyddyn sydd ar gael i fyfyrwyr drwy Gynllun Bwrsariaeth y GIG sydd fel arfer yn byw yn LLOEGR (o dan SFE)**

Hyd Cwrs Safonol



## Cyllid cyllid myfyrwyr

Fel arall, gall myfyrwyr ddewis 'optio allan' o Gynllun Bwrsariaeth y GIG, cofrestru'r penderfyniad hwn gyda Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG (Cymru) ac yn hytrach cael eu hariannu gan eu corff Cyllid Myfyrwyr sy'n cael ei bennu gan ble maent yn preswylio cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs, fel yr amlinellir ar dudalennau 4-11 o'r canllaw hwn.

Mae'r cyllid sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu ar y corff cyllido ond gall gynnwys benthyciadau ffioedd dysgu, benthyciadau cynhaliaeth a grantiau. Pennir eich corff ariannu gan ble rydych chi'n byw fel arfer cyn i chi ddechrau'r cwrs.

Os ydych chi fel arfer yn byw yn:

**Cymru**
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

**Lloegr**
www.gov.uk/student-finance

**Yr Alban**
www.saas.gov.uk

**Gogledd Iwerddon**
www.studentfinanceni.co.uk

## Lwfansau Wythnosau Ychwanegol a Chostau Lleoliad Ymarfer

P'un a ddewisodd myfyrwyr lwybr ariannu Bwrsariaeth y GIG Cymru neu cael eu hariannu gan eu corff Cyllid Myfyrwyr, rhoddir cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw wythnosau ar y cwrs bob blwyddyn dros y 30 wythnos, 3 diwrnod safonol. Rhoddir cyllid ychwanegol i helpu gyda chostau byw ac mae'n amrywio rhwng £84 a £141 yr wythnos, yn dibynnu ar eich llwybr cyllido.

Yn ogystal, mae cyllid yn aml yn cael ei roi i helpu myfyrwyr sydd â chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliadau. Gweinyddir hyn gan yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd.

## Cymorth Ychwanegol

P'un a ydych yn cael eich ariannu drwy Gynllun Bwrsariaeth y GIG Cymru neu gorff Cyllid Myfyrwyr, mae cymorth ychwanegol ar gael yn seiliedig ar amgylchiadau personol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfans myfyrwyr anabl
- Lwfans Gofal Plant
- Lwfansau Dibynyddion sy'n blant
- Lwfans Dysgu i Rieni
- Grant Dibynyddion sy'n Oedolion

Byddech yn gwneud cais am hwn ar yr un pryd â gwneud cais am y pecyn ariannu a ddewiswch.



# Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd

## Bwrsariaethau ym Mhrifysgol Caerdydd 2024-25

Nod Prifysgol Caerdydd yw cefnogi myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd trwy ein cynlluniau bwrsariaeth.

Mae'r bwrsariaethau canlynol ar gael i fyfyrwyr cofrestredig sy'n derbyn cyllid statudol y DU ar gyfer costau byw. Mae Telerau ac Amodau yn berthnasol i bob cynllun isod.

## Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd

£500 y flwyddyn o astudio i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

Astudio israddedig amser llawn – Yn atebol am £9,250 o ffioedd dysgu

Cyfraniad cartref a aseswyd o £35,000 neu lai gan eich corff cyllido statudol yn y DU

(Nid yw myfyrwyr TAR a myfyrwyr a ariennir gan y GIG yn gymwys).

Nid oes cais am y fwrsariaeth hon gan ein bod yn derbyn gwybodaeth am incwm y cartref gan eich corff cyllid myfyrwyr.

## Gyda'n gilydd ym Mwrsariaeth Caerdydd

Rydym yn darparu bwrsariaeth o £1,000 y flwyddyn o'u hastudiaethau academaidd i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig amser llawn a ariennir yn y DU sy'n gadael gofal, wedi ymddieithrio, yn brofiadol yn y fyddin ac yn ofalwyr sy'n oedolion ifanc.

Bydd angen i fyfyrwyr ddatgelu i'n cymorth Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd ar ôl cofrestru i fod yn gymwys. Os ydych wedi nodi eich bod yn cyfarfod ag un o'r grwpiau a gefnogir gan Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd drwy'r blwch ticio yn eich cais UCAS neu wrth gofrestru, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol drwy e-bost.

## Gwobr Cam Nesaf

Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r cynllun Camu i Fyny llawn trwy Brifysgol Caerdydd ac sydd ag incwm cartref wedi'i asesu o £35,000 neu lai.

## Newydd ar gyfer 2024-25

### Gofal Plant Cofrestredig Bwrsari Cyfraniad

Ar gael i fyfyrwyr israddedig a ariennir yn y DU sy'n cael Grant Gofal Plant gan eu corff cyllido ac sydd â chostau gofal plant cofrestredig.

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein yma:: **www.caerdydd.ac.uk**

### Myfyrwyr sy'n Blogio

O awgrymiadau astudio i ble i fwyta, i gymdeithasau, teithiau penwythnos a ble i gael eich llyfrau, mae ein myfyrwyr sy'n blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n siarad am brofiad go iawn myfyriwr yng Nghaerdydd.

Cofiwch ddarllen eu blogiau diweddaraf i gael gwybod rhagoram sut beth yw byw ac astudio yng Nghaerdydd.

**www.caerdydd.ac.uk/studentbloggers**

### Dewch i ymweld â ni!

Rhagor o wybodaeth ynghylch ymweld â Phrifysgol Caerdydd:
**www.cardiff.ac.uk/opendays**

### I gael rhagor o gyngor ar gyllid myfyrwyr, cysylltwch â'r

Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr drwy Cyswllt Myfyrwyr
Ffôn: **029 2251 8888**
Ebost: **StudentConnect@Caerdydd.ac.uk**

## CysylltiadCaerdydd

- instagram.com/prifysgolCdydd
- youtube.com/user/cardiffuni
- facebook.com/prifysgolCdydd
- @prifysgolCdydd

**Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig**
Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2024/25, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Medi 2024.